# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

Oherwydd camddealltwriaeth ynglyn â chadarnhau amser a dyddiad y cyfarfod bu rhaid gohirio'r cyfarfod efo PCSO Rebecca Lloyd Williams a PCSO Ffion Williams tan y cyfarfod nesaf. Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Clerc.

**<u>Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Gorffennaf 9 2024</u>**

Yn absenoldeb y Cadeirydd Cyng Aled Griffith cymerodd yr Is-Gadeirydd Cyng John Gwynedd Roberts y gadair i lywyddu'r cyfarfod. Dechreuodd drwy groesawu'r ddau aelod newydd, Cyng Trefor Jones a Cyng Karena Owens, i'r Cyngor Tref a diolchodd iddynt am eu cyfraniad. Cafwyd cyfle hefyd i bawb gyflwyno ei hun i'r Cynghorwyr newydd.

**61.7.24 Presennol: Cynghorwyr:-** Trefor Jones, Karena Owens, Michael Roberts, Gwilym Jones, John Gwynedd Roberts (Is-Gadeirydd), Sandra Bodden Jones, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Dr Melfyn Edwards, Llywelyn Rhys
Marian Roberts (Clerc)

**62.7.24 Ymddiheuriadau: Cynghorwyr :-** Aled Griffith (Cadeirydd)

**63.7.24 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Mehefin 11 2024**
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**64.7.24 Adroddiad y Clerc**

**Llewyrch o'r Llechi** – clywyd bod y Clerc a'r Cyng Gwilym Jones ar 20.6.24 wedi ymuno â swyddogion Llewyrch o'r llechi a Howard Bowcott yr arlunydd ar daith o amgylch Porthmadog yn edrych ar leoliadau posib' i 4 darn o waith celf sydd wedi eu comisiynu ganddo.
**Giât Cae Chwarae Bodawen** – oherwydd cyflwr gwael y giât bren bresennol cafwyd cyfarfod ar y safle ar 27.6.24 rhwng rhai o'r Cynghorwyr â chontractwr lleol er mwyn cael dyfynbris am osod giât a 'railings' newydd. Un pris allan o 3 sydd wedi ei dderbyn hyd yma.
**Y Ganolfan** – yn dilyn penderfyniad mewn cyfarfod Grymuso Gwynedd yn yr Hwb Arloesi yn ddiweddar cafwyd cyfarfod rhwng y Clerc, 2 swyddog o Adran Cymunedoli Cyngor Gwynedd ac Ysgrifennydd y Ganolfan ar 3.7.24 gyda'r bwriad o ddatblygu cydweithrediad agosach rhwng y Cyngor Tref a'r Ganolfan.
**Hyfforddiant** – cyfeirwyd at y cyrsiau ar lein gan Un Llais Cymru sydd yn cael eu cynnig yn rheolaidd i'r Cynghorwyr fel rhan o Gynllun Hyfforddiant y Cyngor Tref. Dyma grynodeb o'r hyfforddiant hyd yma:-

| **Dyddiad** | **Enw** | **Cwrs** |
|---|---|---|
| 25.6.24 | Marian Roberts | Y Cyngor fel Cyflogydd – Modiwl 3 |
| 25.6.24 | Aled Griffith | Y Cyngor fel Cyflogydd– Modiwl 3 |
| 25.6.24 | John Gwynedd Roberts | Y Cyngor fel Cyflogydd– Modiwl 3 |
| 27.6.24 | John Gwynedd Roberts | Sgiliau Cadeirio – Modiwl 10 |
| 23.7.24 | Karena Owens | Cynghorwyr Newydd |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 23.7.24 | Trefor Jones | Cynghorwyr Newydd |
| 13.8.24 | Karena Owens | Y Cynghorydd – Modiwl 2 |
| 13.8.24 | Trefor Jones | Y Cynghorydd – Modiwl 2 |

**65.7.24 Datgan diddordeb.**
Cyng. Llywelyn Rhys – Gohebiaeth 6 ; Cofnod 81.7.24 Cyfoeth Naturiol Cymru

**66.7.24 <u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**

**(a) Rhif Cais / Application No.: C24/0461/44/LL ( wedi ebostio 13.6.24 )**
Lleoliad / Location: Stead & Simpsons, 91 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9EU
Bwriad / Proposal: Amnewid drysau blaen a mynedfa'r siop sydd yn bresennol wedi ei gosod yn Ã´l a gosod
blaen siop newydd gwastad a drws mynediad llithro awtomatig; ffurfio agoriad awyru newydd iâ€TMr cefn a
cyfnewid yr holl ffenestri llawr cyntaf ac ail lawr
**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD**

**(b) Rhif Cais / Application No.: C24/0498/44/DT ( wedi ebostio 1.7.24 )**
Lleoliad / Location: 3, TÅ· Rhosyn Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UY
Bwriad / Proposal: Gosod pwmp gwres hunan-sefyll RIELLO 8KW
Installation of a free-standing RIELLO 8KW heat pump
**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD**

**(c) Rhif Cais / Application No.: C24/0394/44/CR ( wedi ebostio 3.7.24)**
Lleoliad / Location: Flat 2, 7 Pen Y Cei, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AT
Bwriad / Proposal: Diwygiad i'r cais blaenorol C16/1227/44/CR er mwyn amnewid drws i ffenestr ac newid i'r
edrychiad cefn / Amendmens to the previous application C16/1227/44/CR to replace
door with window and alterations to the rear elevation
**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD** - ar yr amod nad yw'n newid cymeriad hanesyddol y Grisiau Mawr a bod ystyriaethau treftadol a chadwraethol yn cael eu diwallu.

**<u>MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF</u>**

**67.7.24 Ethol cynrychiolydd yn lle Connor Westwood ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Borth y Gest.**
Cytunodd Cyng Dr Melfyn Edwards i ymgymryd â'r swydd. Bydd y Clerc yn hysbysu'r ysgol o'r newid.

**68.7.24 Gwirio tymor cynrychiolwyr ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn ac Ysgol y Gorlan.**

- Cytunodd Cyng Llywelyn Rhys i wirio os yw ei dymor o wedi dod i ben ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn. Bydd yn hysbysu'r Clerc os bydd angen dewis cynrychiolydd newydd.
- Credir bod tymor aelod o Gyngor Cymuned Dolbenmaen ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gorlan yn parhau am gyfnod eto.

**69.7.24 Ethol cynrychiolydd yn lle Connor Westwood ar yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo.**
Cytunodd Cyng Trefor Jones i gymryd lle Connor Westwood ar yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo.

**<u>MATERION I'W DWYN GERBRON :-</u>**

DRAFT

**70.7.24 Cyng Sandra Bodden Jones – Cynnig gosod amodau ar y Ceisiadau Ariannol, fel bod y sawl sy'n derbyn cyfraniad yn gorfod anfon tystiolaeth (ffotograffig neu dderbyneb) i'r Cyngor o fewn 12 mis i dderbyn yr arian i ddangos bod yr arian wedi cael ei ddefnyddio i'r pwrpas y gwnaethpwyd cais amdano.**
**Penderfynwyd :-** aros i dderbyn cyngor ar y mater gan Un Llais Cymru cyn gweithredu ymhellach yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**71.7.24 Cyng Llywelyn Rhys :- Cynnig datgan anfodlonrwydd fod y Clwb Hwylio yn atal mynediad cyhoeddus wrth gloi'r giât i risiau o'r harbwr i lawr i'r môr. .( Gweler llun 3 Gohebiaeth)**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig trwy lythyru adrannau Mynediad;Cynllunio;Cadwraeth;a Morwrol Cyngor Gwynedd yn ogystal â Cadw, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**72.7.24 Cyng Llywelyn Rhys :- Cynnig ysgrifennu i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i gwyno am 'camper vans' sydd yn aros dros nos mewn sawl lleoliad ym Mhorthmadog.( Gweler llun 1 & 2 Gohebiaeth)**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig a holi os oes posib' creu sustem gorfodaeth neu cyflogi swyddog i fonitro'r sefyllfa ac i annog y faniau i symud, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

**73.7.24 Cyng Carol Hayes :- Cynnig bod Cyngor Tref Porthmadog yn cysylltu gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ynglŷn â'r bwriad i adleoli'r feddygfa bresennol yn y dref er mwyn mynegi cefnogaeth y Cyngor i safle yr hen Coliseum.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig a gofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa ac i gadarnhau mai safle'r Coliseum yw'r dewis delfrydol, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

**74. 7.24 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Rhaglen Medi 10 2024 = Awst 31 2024 , ( Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*
- Ymateb fel corff i lythyr Ken Skates – Gohebiaeth 1

**75.7.24. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**<u>GOHEBIAETH :</u>**

| | | |
|---|---|---|
| **76.7.24** | **KEN SKATES** | **Diweddariad ar 20 m.y.a**<br>**Penderfynwyd :-** gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf er mwyn i'r aelodau gael mwy o amser i ystyried ac i ymateb fel corff yn y cyfarfod ar 10.9.24 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio. |
| **77.7.24** | **CYNGOR GWYNEDD** | **Cais i osod stondin Crêpes yn Pencei**<br>**Ymateb i'r cais**<br>**Ymateb yr ymgeisydd**<br>**Penderfynwyd :-** cefnogi'r cais i osod y trelar crempog ar Pencei am un tymor yn unig fel cyfnod prawf yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio. |
| **78.7.24** | **JON JAMES** | **Ymateb i 54.6.24 skatepark**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth gan ddiolch iddo am ei ddiddordeb a'i annog i ymchwilio ymhellach i'r mater yn ôl |



DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio. |
| **79.7.24** | **CONNOR WESTWOOD** | **Llythyr ymddiswyddiad**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth gan ddatgan tristwch o golli aelod o'r Cyngor Tref ac ysgrifennu ato i ddiolch yn fawr iddo am ei wasanaeth ac i fynegi pob dymuniad da iddo ef a'r teulu ar gyfer y dyfodol yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio. |
| **80.7.24** | **TRAFNIDIAETH CYMRU** | **Ymateb i 42.6.24 T2 yn osgoi Tremadog**<br>Mynegwyd siom yng ngeiriad y llythyr a<br>**Penderfynwyd :-** gwahodd swyddog o Trefnidiaeth Cymru i ddod i gyfarfod y Cyngor unai yn Y Ganolfan neu yn rhywle ar hen "route" y T2 yn Nhremadog yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio. |
| **81.7.24** | **CYFOETH NATURIOL CYMRU** | Gadawodd Cyng. Llywelyn Rhys yr ystafell cyn y drafodaeth.<br><br>**Diweddariad risg llifogydd – gwybodaeth i'w rannu ar 5.7.24**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ofyn beth yn union y maent wedi ei wneud ers iddynt gysylltu â'r Cyngor Tref dros flwyddyn yn ôl, yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.<br><br>Dychwelodd Cyng Llywelyn Rhys wedi'r drafodaeth. |
| **82.7.24** | **COMISIYNYDD IAITH** | **Ymateb i 59.6.24 – Initial Parking**<br>**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth |

**83.7.24 MATERION ARIANNOL :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| H.S.B.C. | Llog Banc Mai Mehefin 2024 | £57.34 |
| FISHER GERMAN | Arolwg Cae Bodawen National Grid | £250.00 |

Cyfeiriodd y Clerc at anfoneb am £80.00 gan Un Llais Cymru oedd wedi cyrraedd yn y dyddiau diwethaf gan ei ychwanegu at y rhestr taliadau.
**Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Gwilym Jones yn eilio**:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Mehefin 2024 | £ 64.42 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Mehefin 2024 | £1,536.86 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Mehefin 2024 | £386.46 |
| 4 | Clerc | Ad-daliad am 20 stamp 2il ddosbarth | £17.00 |
| 5 | Designer Signs | Trwsio lloches bws Morfa Bychan | £1033.68 |
| 6 | Un Llais Cymru | Hyfforddiant Clerc a Cyng J.G.Roberts | £80.00 |

( Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

DRAFT

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30

Marian Roberts
( Clerc )

12.7.24

DRAFFT